# Mae eich gwlad eich angen CHI

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn bwrw trem ar drefniadau'r Sioe Fawr yn Llanelwedd, gan adrodd ar y dystiolaeth Gristnogol yno



Adleisiau o alwad dychrynllyd y Rhyfel Byd Cyntaf i'w gweld ar faes y Sioe eleni

Tybed wnaethoch chi fentro i faes y Sioe eleni ynghanol y tywydd poeth, fel y gwnaeth tua 50,000 o bobl bob dydd? Wrth gyrraedd y Sioe eleni, a dod i mewn drwy'r brif fynedfa ger y tyrau mawr, a cherdded ar hyd y prif lwybr ar ffordd D, un o'r stondinau mawr cyntaf yno oedd stondin y Fyddin. Roedd yn stondin drawiadol iawn, gyda thanciau a phob math o ynnau ac arfau tu allan, â phlant i'w gweld yn dringo ac yn chwarae arnynt o fore gwyn tan nos. Roedd yna fand pres yn perfformio bob awr, a llu o anerchiadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd o ynnau ac arfau. Roedd anrhegion lu i'r plant, a chylchgronau'n cael eu gwthio ar bobl wrth iddynt gerdded heibio.

Y drws nesaf yr oedd stondin yr Awyrlu Brenhinol, ag awyren yn llawn arfau a bomiau yno'n fygythiol gysgod dros bawb oedd yn pasio. Ar draws y ffordd yr oedd stondin y Llynges Filwrol Frenhinol, hwythau hefyd efo stondin sylweddol a phrysur.

Mae'r cysylltiad rhwng y Sioe a'r fyddin yn hanesyddol wedi bod yn un glòs, â nifer o sioeau ceffylau'n diddori'r dorf sawl gwaith y dydd, a thanio'r gynnau'n digwydd yn rheolaidd, heb anghofio am hedfaniadau dyddiol y Spitfires uwch maes y Sioe. Mae'n debyg fod dros 250 o wirfoddolwyr milwrol yno, gan gynnwys plant a phobl ifanc y cadetiaid. Roedd y stondinau hyn yn rhai byrlymus a hwyliog iawn, a thorfeydd o deuluoedd yn ymgasglu yno, er mwyn i blant gael cyfle i ddringo a chwarae ar yr arfau. Mae'n debyg mai 'recriwtio' a 'normaleiddio arfau' oedd eu prif reswm dros fod yno, ac mae'n amlwg fod degau o filoedd o bunnau wedi'u gwario ar yr ymdrech.

O barhau i gerdded ar hyd y ffordd, roedd pabell fechan gan y Mudiad Efengylaidd, a phabell arall gan fudiad cenhadol Show Jesus, y ddau ohonynt yn rhannu tractiau ac yn cynnal sgyrsiau cenhadol. Yna, o barhau i gerdded ar hyd rhes D, roedd pabell yr Eglwysi o dan nawdd Cytûn. O fewn y babell honno, roedd chwech o wirfoddolwyr, gyda chriw yn gwneud paneidiau, a Siân yn gofalu am y rhaglen i blant. Do, fe rannwyd cannoedd o baneidiau, ac fe wnaeth dros 200 o blant ymweld â'r babell i wneud gwaith crefft a gweithgareddau yn ystod yr wythnos. Diolch i'r Parch. Tim a Helen Williams am eu gwaith diflino o fewn y babell gydol yr wythnos. Bu cyfle am sawl sgwrs ddwys ac adeiladol, gan drafod heriau'r byd amaeth a heriau'r ffydd yng Nghymru heddiw.

Bob dydd am 11 o'r gloch cynhaliwyd oedfa fer, a braf fu cael croesawu'r Parch. Evan Morgan, Llywydd EBC, a'r Parch Beti Wyn James, Llywydd UAC, i arwain yr oedfaon hyn yn eu tro. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi bob dydd yn ogystal, a hynny am 8.30 y bore, cyn anfon tîm bychan o wirfoddolwyr allan i'r maes i dreulio'r diwrnod yn eu siacedi oren llachar, â'r geiriau 'Caplaniaid y Sioe' ar eu cefnau. Eu gwaith nhw yn syml oedd bod yn bresenoldeb gweledol ar faes y Sioe, gan fod yn agored i gynnal sgyrsiau yn ôl y galw. Yn eu plith yr oedd y Parch. Brian Reardon, gweinidog ffyddlon EBC yn Llanelwedd a'r cyffiniau.


Bwrlwm Pabell Cytûn ar faes y Sioe

Tybed pwy sylwodd arnynt? Tybed faint drodd i mewn i'r pebyll Cristnogol? Wel, nifer cymharol fach, dybiwn i, o'i gymharu â'r torfeydd oedd o gwmpas y stondinau milwrol. Mae llawer wedi cwestiynu a oes yna werth i ni fel enwadau fod yn y Sioe o gwbl! Gresyn na fu mwy o ddiddordeb o blith yr eglwysi Cymraeg i wirfoddoli. O'r tîm o 12 caplan ar ddyletswydd eleni, dim ond un oedd yn siarad Cymraeg. Mynegwyd pryder hefyd am y diffyg caplaniaid benywaidd. Diolch am gefnogaeth yr Eglwys yng Nghymru; heb eu cefnogaeth nhw, ni fyddai wedi bod yn bosib cynnal y ddarpariaeth hon.

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Mae eich gwlad eich angen CHI*

*(parhad o dudalen 1)*

Felly, cri am help a geir yma. Cri debyg i'r alwad honno adeg y Rhyfel Byd Cyntaf – mae angen gwirfoddolwyr. Mae angen caplaniaid, ac mae angen hyfforddi'r caplaniaid hynny rŵan ar gyfer digwyddiadau 2023. Mae eich gwlad eich angen CHI! – Gristnogion Cymru – i fod yn halen ac yn oleuni, i fod yn llais sy'n cyhoeddi ffordd a llwybr gwahanol i'r hyn a glywir o gyfeiriad y sector milwrol. Ai arwydd o'r amserau yw fod 250 o bobl yn barod i gyhoeddi neges militariaeth tra bu'n gryn ymdrech i ddod o hyd i ddwsin o bobl oedd yn barod i gyhoeddi ffordd tangnefedd a gobaith, a chyhoeddi newyddion da efengyl Iesu Grist?

Dros y blynyddoedd diwethaf clywyd llawer o sôn am y straen ar lawer o ffermwyr heddiw, ac am unigrwydd y gwaith, heb sôn am ofidiau ariannol a phryderon iechyd meddwl. Gwelwyd sawl mudiad Cristnogol yn camu i'r adwy gan gynnig cefnogaeth, yn cynnwys y Farming Crisis Network, a'r DPJ Foundation, heb anghofio am waith arloesol Tir Dewi. Braf oedd cael croesawu a rhoi gofod i stondin Tir Dewi o fewn pabell yr eglwysi eleni. Dymunwn eu llongyfarch hefyd ar dderbyn gwobr nodedig yn y Sioe eleni am eu gwasanaeth i fyd amaeth yng Nghymru.

Sefydlwyd Tir Dewi gan yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi, a'r Esgob Wyn Evans yn 2015. Roeddent yn cydnabod y ffaith fod angen dybryd am help i ffermwyr oedd yn dioddef amserau anodd. Gyda chefnogaeth ariannol hael yr Eglwys yng Nghymru a Chronfa Cefn Gwlad y Tywysog, sefydlodd Eileen gynllun Tir Dewi fel llinell gymorth werthfawr a gwasanaeth cefnogol, naill ai dros y ffôn neu drwy drefnu ymweliad â'r fferm, yn ôl y gofyn. O ddechreuad bychan, pan oedd Eileen yn dosbarthu taflenni gwybodaeth i'r gymuned ffermio leol, tyfodd yr elusen yn llawer mwy na'r disgwyl. Bellach, mae Tir Dewi wedi llwyddo i helpu cannoedd o ffermwyr a'u teuluoedd a oedd, mewn un ffordd neu'r llall, yn ymdrechu i ymdopi. Heddiw, gall ffermwyr mewn angen mewn rhannau helaeth o Gymru gael mynediad at wasanaethau Tir Dewi.




Yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi

Meddai Eileen, 'Hyd yn hyn rydym wedi sefydlu Tir Dewi yn ardaloedd Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Powys, Conwy, Sir Fôn, Gwynedd a Gŵyr. Rydym yn chwilio'n barhaus i ehangu ein gwaith yn y gobaith y byddwn, ryw ddydd, yn gwasanaethu ffermwyr ar draws Cymru gyfan.'

Diolch am weledigaeth Tir Dewi, ac am eu hawydd i weithio ar draws yr enwadau i gynnig gwasanaeth i bawb mewn angen. Diolch hefyd am waith a thystiolaeth yr eglwysi ar faes y Sioe – a braf fyddai gobeithio, erbyn 2023, y bydd mwy o blith eglwysi anghydffurfiol Cymraeg Cymru yn ymuno yn y genhadaeth. Tybed a yw Duw yn eich galw CHI?




Y caplaniaid cyn cychwyn allan ar waith y dydd




Oedfa'r bore dan ofal y Parch. Evan Morgan, gyda Peredur Griffiths yn cynorthwyo a Delyth Wyn Davies yn cyfeilio